Taflen Gwybodaeth Cyfranogwyr

Dyddiad: 1 Mawrth 2021

Teitl yr Astudiaeth Ymchwil:
Arbrawf Arsylwi Awyr y Nos

Cyflwyniad

Fy enw i yw Alison McMillan, rwy'n aelod o staff ym Mhrifysgol Glyndŵr, ac mae'r astudiaeth hon wedi deillio o weithgaredd ymchwil rhyngddisgyblaethol rydw i wedi bod yn rhan ohono. Rydych chi'n cael eich gwahodd i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon. Cyn ichi gytuno i wneud hynny, mae'n bwysig eich bod yn deall pwrpas a natur yr ymchwil a beth fydd eich cyfranogiad yn ei olygu, os cytunwch. Darllenwch y wybodaeth ganlynol yn ofalus, a gofynnwch os nad oes unrhyw beth yn glir, neu os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth. Rhoddir manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen wybodaeth hon.

Beth yw pwrpas yr astudiaeth a sut y bydd yn cael ei gynnal?

Amcanion yr ymchwil yw: Arsylwi'r dulliau a ddefnyddir gan bobl â gwahanol sgiliau, gwybodaeth a diddordebau i arsylwi rhan o awyr y nos.

Y fethodoleg ymchwil yw (yn amlinellol): Cymharu, cyferbynnu, ac o bosibl cyfuno, yr allbynnau a ddarperir gan bob un o'r cyfranogwyr, a phenderfynu pa ganlyniadau y gellir dynnu.

Pam wyf wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan?

Ein nod yw recriwtio cyfranogwyr sy'n dod o wahanol ddisgyblaethau STEAM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Celf, Mathemateg).

Oes rhaid i mi gymryd rhan?

Mae cyfranogiad yn gwbl wirfoddol. Chi sydd i benderfynu a ddylid cymryd rhan ai peidio. Os cytunwch i gymryd rhan, gofynnir ichi lofnodi ffurflen gydsynio. Os cytunwch i gymryd rhan, gallwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm. Os bydd hynny'n digwydd, nodwch na fyddwch yn gallu tynnu'ch gwybodaeth yn ôl ar ôl iddo gael ei wneud yn ddienw. Gwneir gwybodaeth bersonol yn ddienw yn gyflym ar ôl casglu.

Beth fydd cymryd rhan yn ei olygu?

Mae taflen wybodaeth fanwl yn nodi'n union beth sydd angen. Nid oes angen i chi fod yn seryddwr neu fod yn berchen ar telesgop. Rhaid cynnal y weithgaredd rhwng tua 7pm a hanner nos ar noson rhwng rwan a thua 24ain Mawrth. Ar ôl y dyddiad hwn, bydd yr arsylwi'n anoddach.

Mae'r arsylwi hefyd yn gofyn am awyr weddol glir a thywyll. Os gallwch chi, gwnewch hyn o'ch cartref neu le yn agos at adref. Os penderfynwch yrru i leoliad gwylio gwell, cymerwch ofal am eich diogelwch eich hun wrth weithio yn y tywyllwch. Sylwch na fyddwn yn talu costau teithio.

Efallai y bydd yr ymarfer yn cymryd tua awr i'w wneud, ond gallai rhai cyfranogwyr gymryd mwy o amser nag eraill. Gellir gwneud yr ymarfer fwy nag unwaith, ar wahanol adegau neu ar wahanol nosweithiau, mewn amodau gwylio da neu ddim cystal, neu wrth ddefnyddio gwahanol dechnegau.

Nid oes unrhyw ffordd gywir neu anghywir i wneud yr ymarfer hwn. Nid oes angen unrhyw offer arbenigol: mae'n debygol y bydd gennych bopeth sydd ei angen arnoch gartref.

A fydd fy nghyfranogiad yn gyfrinachol?

Bydd yr holl wybodaeth amdanoch a gasglwyd yn ystod yr astudiaeth yn cael ei chadw'n hollol gyfrinachol a'i gadw'n ddiogel yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Yr unig bobl a fydd yn gwybod amdanoch chi yw fi fy hun, Alison McMillan, a fy nghyd-ymchwilydd, Jonathan Powers (Athro Emeritws, Prifysgol Derby).

Bydd yr holl wybodaeth bersonol, boed yn electronig neu ar bapur neu ar unrhyw ffurf arall, yn cael ei ddinistrio ar ôl i'r wybodaeth gael ei wneud yn ddienw. Bydd gwybodaeth wedi'i brosesu, na ellir ei olrhain i unrhyw unigolyn, yn cael ei gadw fel rhan o unrhyw gyhoeddiad fel set-ddata i'w defnyddio o bosibl gan ymchwilwyr y dyfodol.

Beth fyddwch chi'n ei wneud gyda chanlyniadau'r ymchwil?

Os bydd yr astudiaeth yn llwyddiannus, rhagwelir y byddai'n cael ei hysgrifennu fel papur ymchwil a'i gyhoeddi mewn cyfnodolyn academaidd.

Mewn unrhyw gyhoeddiad sy'n defnyddio'r data hwn, cydnabyddir cyfranogwyr yn ddienw. Yn eithriadol, a gyda'ch caniatâd penodol, gellir defnyddio'ch delweddau unigol fel enghraifft o ymateb gan gyfranogwr wrth ysgrifennu cyhoeddiad. Yn yr achos hwn, byddech chi'n cael cyfle i dynnu caniatâd yn ôl, neu fynnu anhysbysrwydd, neu ofyn am gydnabod eich enw fel y crëwr.

Os yw cyfranogwyr yn cael profiad cadarnhaol o gymryd rhan yng ngweithgaredd yr astudiaeth, gallai fod yn bosibl defnyddio'r profiad hwn i ddatblygu gweithgaredd allgymorth STEAM, gyda rhai agweddau tebyg.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Diolch am ddarllen y daflen wybodaeth hon. Os cytunwch i gymryd rhan, byddwch yn derbyn taflen wybodaeth gyda manylion yr ymarfer, a holiadur byr i'w ddychwelyd ar ôl i'r ymarfer gael ei gwblhau.

Byddai'n well gennym i'r cyfranogwyr sganio'r deunyddiau y maent yn eu creu fel rhan o'r ymarfer, ac yna eu hanfon trwy e-bost. Gwnewch hyn dim ond os oes gennych sganiwr gwely fflat. Byddai sganwyr llaw neu ddelweddau ffotograffig yn cael eu hystumio gormod. Os nad oes gennych sganiwr gwely fflat, cysylltwch â ni i drefnu ei anfon trwy'r post.

Cadarnhewch eich caniatâd i hyn gan ddefnyddio'r ffurflen gydsynio isod, sydd hefyd yn gopi gennych i'w gadw.

Os ydych eisiau codi unrhyw bryderon ynghylch ag unrhyw agwedd o sut y cysylltwyd â chi neu sut y cawsoch eich trin mewn perthynas â'r astudiaeth ymchwil hon, cysylltwch â Stewart Milne, Pennaeth y Gwasanaethau Ymchwil (s.milne@glyndwr.ac.uk).

Cyswllt am wybodaeth bellach

Os nad yw unrhyw beth yn glir, neu os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth, cysylltwch â mi: a.mcmillan@glyndwr.ac.uk

TAFLEN WYBODAETH HYSBYSIAD PREIFATRWYDD
I'R RHAI SY'N CYMRYD RHAN MEWN PROSIECTAU YMCHWIL

Cyflwyniad

Nodwch, os gwelwch yn dda, y dylai'r wybodaeth safonol hon gael ei hystyried ochr yn ochr â gwybodaeth a ddarperir gan yr ymchwilydd ynghylch y prosiect, fel arfer ar ffurf Taflen Wybodaeth i Gyfranogwr. Bydd y Daflen Wybodaeth yn cynnwys mwy o fanylion am sut y bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu yn y prosiect penodol, yn cynnwys: pa ddata sy'n cael ei brosesu; sut mae'n cael ei storio; am ba gyfnod y bydd yn cael ei gadw, ac unrhyw un arall fydd yn derbyn yr wybodaeth bersonol. Fel arfer rhoir y daflen i gyfranogwyr cyn iddynt benderfynu a ydynt am gymryd rhan yn yr ymchwil ai peidio.

Y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data

Prifysgol Glyndŵr yw'r Rheolydd Data dan ddeddfwriaeth diogelu data. Ystyr hyn yw bod y Brifysgol yn gyfrifol am sut y defnyddir eich data personol chi ac am ymateb i unrhyw geisiadau gennych chi yng nghyswllt eich data personol. Dylid cyflwyno unrhyw ymholiadau ynghylch eich gwybodaeth bersonol i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol - dpo@glyndwr.ac.uk

Sail gyfreithiol prosesu eich gwybodaeth bersonol chi

Os ydych chi'n cymryd rhan mewn prosiect ymchwil, gallem gasglu eich gwybodaeth bersonol chi. Bydd y math o wybodaeth a gesglir yn amrywio yn dibynnu ar y prosiect. Amlinellir ein seiliau ar gyfer casglu'r wybodaeth hon isod:

Math o wybodaeth	**Sail prosesu'r wybodaeth**
Eich gwybodaeth bersonol a data ymchwil cysylltiedig a gesglir at ddibenion cynnal yr ymchwil	Mae'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gynhelir er budd y cyhoedd
Mae mathau penodol o wybodaeth bersonol, fel gwybodaeth am eich hil, tarddiad ethnig, gwleidyddiaeth, crefydd, aelodaeth undeb llafur, geneteg, biometreg (lle y defnyddir hynny at ddibenion hunaniaeth), iechyd, bywyd rhywiol neu gyferiadedd rhywiol yn cael eu diffinio fel data 'Categori Arbennig' dan y ddeddfwriaeth	Mae'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gynhelir er budd y cyhoedd, Mae'n angenrheidiol at ddibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol (Deddf Diogelu Data 2018. Atodlen 1, Rhan 1 Paragraff 4)
Data euogfarnau / troseddau troseddol	Mae'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gynhelir er budd y cyhoedd, ac mae'n cael ei brosesu'n unol ag Erthygl 10 y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018, Atodlen 1, Rhan 1 Paragraff 4

Cadw ffurflenni caniatâd

Os ydych chi'n cymryd rhan mewn prosiect ymchwil, gellid gofyn i chi lenwi ffurflen ganiatâd cyfranogwr. Yn arferol bydd ffurflenni caniatâd yn cael eu cadw gan y Brifysgol am o leiaf gyhyd ag y bo'r data ymchwil yn cael ei gadw. Ym mwyafrif yr achosion byddant yn cael eu cadw am gyfnod hirach. Bydd yr union gyfnod amser yn cael ei benderfynu gan yr angen i weld yr wybodaeth hon yn yr achos anffodus o broblem nas rhagwelwyd neu gŵyn chwe mlynedd ar ôl cwblhau'r ymchwil ar gyfer llawer o brosiectau, ond bydd y tu hwnt i 20 mlynedd yn cael ei ystyried ar gyfer unrhyw astudiaethau hydredol neu 'risg uchel' sy'n cynnwys plant, oedolion heb y gallu meddyliol neu ganlyniad ymchwil dadleuol.

Eich hawliau chi

Mae gennych chi'r hawl i: gael eich hysbysu am gasglu a defnyddio eich data personol; gofyn am weld y data personol amdanoch chi a gedwir gennym ni; mae gennych chi'r hawl i ofyn am gywiro eich data personol os yw'n anghywir neu'n anghyflawn; mae gennych chi'r hawl i wneud cais i wrthwynebu i'ch data gael ei brosesu a chewch wneud cais i gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol chi. Os hoffech chi weithredu'r hawliau hyn cysylltwch gyda dpo@glyndwr.ac.uk os gwelwch yn dda.

Yr hawl i gwyno wrth awdurdod goruchwylio

Os oes gennych chi unrhyw bryderon/broblemau gyda'r modd mae'r Brifysgol wedi prosesu eich data personol chi, cewch gysylltu gyda'r swyddog diogelu data yn dpo@glyndwr.ac.uk. Hefyd mae gennych chi'r hawl i wneud cwyn yn erbyn y Brifysgol ynghylch materion diogelu data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (https://ico.org.uk/concerns/)

Edrychwch ar Ddatganiad Preifatrwydd Cyfranogwr Ymchwil y Brifysgol i gael y manylion llawn: https://www.glyndwr.ac.uk/en/InformationGovernance/PrivacyStatements/

Ffurflen Caniatâd Cyfranogwr

Teitl yr Astudiaeth Ymchwil: Arbrawf Arsylwi Awyr y Nos

Enw'r Ymchwilydd: Yr Athro Alison McMillan

Ticiwch y blwch (iau) i gadarnhau pob datganiad

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y Daflen Wybodaeth dyddiedig 1 Mawrth 2021 ar gyfer yr astudiaeth uchod. Os wyf wedi gofyn am eglurhad neu am ragor o wybodaeth, rwyf wedi cael ymatebion boddhaol. ☐

Rwy'n deall bod fy nghyfranogiad yn wirfoddol a fy mod yn rhydd i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, heb roi unrhyw reswm. Rwy'n deall na ellir tynnu unrhyw ddata a gyfrannais yn ôl ar ôl iddo gael ei wneud yn ddienw. ☐

Rwy'n deall y gall yr ymchwilydd a'r Athro Jonathan Powers edrych ar rannau perthnasol o'r data a gasglwyd gennyf yn ystod yr astudiaeth. ☐

Rwy'n deall y bydd unrhyw ddeunyddiau a grëwyd gennyf yn ystod yr astudiaeth hon yn cael eu prosesu a'u gwneud yn ddienw cyn eu defnyddio yn yr astudiaeth, oni bai fy mod yn rhoi fy nghaniatâd i ddelwedd ohonynt gael eu defnyddio fel enghraifft mewn cyhoeddiad. Os defnyddir delwedd o fy ngwaith, rwy'n cadw'r hawl i gael fy nghydnabod fel ei grewr. ☐

Rwy'n cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth uchod

_____	_____	_____
Enw'r Cyfranogwr	Llofnod	Dyddiad
__Prof Alison McMillan__		1/3/2021__
Enw'r Ymchwilydd	Llofnod	Dyddiad